Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Adroddiad Blynyddol

2020 – 2021

Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella CyfranogiG

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3
2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2020/21 4
2.1 Nifer y Cyfarfodydd 4
2.2 Y Flaenraglen Waith 4
2.3 Monitro Perfformiad/Materion Strategol 5
2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 6
2.5 Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion 6
2.6 Arolygiaeth Gofal Cymru Arolygu Gwasanaethau Integredig (Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd) 6
2.7 Y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd – Adroddiad Blynyddol 2019/20 6
2.8 Y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19 6
Gofalwyr Di-dâl yn Sir Gaerfyrddin - Datblygiadau Strategol, Lleol ac sy'n gysylltiedig â COVID-19 7
2.10 Strategaeth Anableddau Dysgu (2020-2025) 7
3. Gweithgarwch Craffu Arall 7
3.1 Gorchwyl a Gorffen 7
3.2 Sesiynau Datblygu 8
4. Heriau 9
5. Gwaith yn y Dyfodol 9
6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu 9
7. Presenoldeb 11

Rhagair y Cadeirydd

Wrth i flwyddyn fwrdeisiol arall ddod i ben mae'n amser, unwaith eto, i gyflwyno rhagair ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Dyma'r 6ed Adroddiad ers i mi fod yn Gadeirydd y Pwyllgor a mae'n bleser i gylwyno'r Adroddiad ar gyfer y flwyddyn 2021- 2022. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r hyn a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

Fel mae pawb yn derbyn, mae'r flwyddyn ddiwethaf yma wedi bod yn flwyddyn anghyffredin iawn gyda'r Pandemig Firws Corona yn effeithio pob agwedd o fywyd ac yn brif bennawd y newyddion yn ddyddiol. Prif swydd y Senedd yng Nghaerdydd a Chyngor Sir Gaerfyrddin oedd sicrhau diogelwch y cyhoedd a lleihau yr haint rhag lledu. Bu Swyddogion. a Staff y Cyngor Sir yn gweithio'n ddiwyd i wneud yn siwr bod Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yn dal i gwrdd ag anghenion y bobl sy'n ddibynnol arnynt. Mae'r holl Staff, yn arbennig y rhai ar y rheng flaen, wedi bod yn barod, ar pob achlysur, i fynd y filltir ychwanegol er mwyn sicrhau gwasanaeth o'r safon uchaf. Bu llawer o'n gweithwyr yn barod i gamu mewn i swyddi hollol wahanol i'r arfer, gan wirfoddoli i helpu allan taw ble roedd yr angen mwyaf. Fel Pwyllgor, hoffem ganmol ein Staff a diolch yn fawr iddynt am eu parodrwydd, eu hymroddiad a'u dyfalbarhad wrth wynebu argyfwng na welwyd ei debyg erioed o'r blaen.

Mae'r Awdurdod lleol yn awyddus i annog cydweithio gyda phartneriaid cyrff allanol ac yn ystod y flwyddyn mae'r Pwyllgor yn ceisio mynd allan i ymweld a gwahanol wasanaethau , siarad â Staff y rheng flaen a gyda'r bobl sy'n defnyddio'r wasanaeth. Yn anffodus eleni, oherwydd cyfyngiadau Covid, ni bu hyn yn bosib.

Eto, yn ystod y Pandemig, ni bu'n bosib i gyfarfodydd cael eu cynnal yn y Siambr a rhaid oedd dysgu ffyrdd newydd o gyfathrebu. Mae ein dyled yn fawr iawn i Staff yr Adran Technoleg a Gwybodaeth am eu holl waith ychwanegol yn sicrhau bod modd cynnal cyfarfodydd y Cyngor yn rhithiol. Doedd "zoom" ddim yn air a ddefnyddir fel rheol gan y mwyafrif ohonom , ond ers y cyfnod clo, mae "zoom" wedi cael lle blaenllaw yng ngeirfa pob yr un ohonom! Diolch i'r Adran Technoleg a Gwybodaeth am sicrhau bod yr adnoddau a'r hyfforddiant wedi bod ar gael i'n galluogi ni i gwrdd yn rhithiol er mwyn ymgymryd a holl ddyletswyddau y Cyngor.

Unwaith eto eleni mae'r Pwyllgor wedi trafod ystod eang o destynau a diolchwn yn fawr i Swyddogion yr Adran am fynychu cyfarfodydd ein Pwyllgor ac am gyflwyno adroddiadau pwrpasol a chynhwysfawr. Mae'r Adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn am amcanion a blaenoriaethau yr Adran yn galluogi ni fel Aelodau I werthfawrogi ymroddiad a gwaith diflino ein Swyddogion.

Yn ystod 2021 - 2022 cafwyd sesiynau datblygu i Aelodau yn cynnwys 'Hyfforddiant Archwilio', 'Cynllun Adferiad Gwasanaethau Dydd Pobl Hyn' a 'Gwasanaeth Cynorthwyo'. Hefyd cafwyd diweddariadau cyson ar sefyllfa Covid o fewn y Sir, er engraifft manylion yn ymwneud a threfniadau profi a fewn cartrefi'r henoed a'r gymuned a'r diweddaraf ynghlyn â'r rhaglen breichiadau.

Mae'r rhag gyfarfodydd yn dal yn rhan bwysig o waith y Pwyllgor - mae'r cyfarfodydd anffurfiol yma yn caniatau unrhyw fan fater i gael ei drafod ymlaen llaw. Mae hyn yn ychwanegu gwerth at y Prif Gyfarfod trwy ganiatau mwy o amser i archwilio itemau ar yr agenda yn fwy manwl.

Mewn ymgynghoriad â'r Swyddogion mae'r Pwyllgor yn paratoi Blaenrhaglen Waith, gyda chyfle i bob Aelod gyfrannu. Bydd y rhaglen yn cael ei hadnewyddu yn gyson yn ystod y flwyddyn gydag itemau ychwanegol yn cael eu cynnwys fel bo'r angen.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor rwy'n gwerthfawrogi yn fawr cefnogaeth y Cynghorydd Ieuan Davies, fy Is -Gadeirydd ac hefyd pob Aelod o'r Pwyllgor am eu brwdfrydedd a'u diddordeb ac am fynychu ein cyfarfodydd rhithiol yn ffyddlon. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Cynghorydd Jane Tremlett, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd am ei phresenoldeb gwerthfawr yn ein cyfarfodydd ac am ei holl gefnogaeth i'r Pwyllgor trwy gydol y flwyddyn.

Fel Aelodau rydym yn werthfawrogol iawn o gyfraniad Emma Bryer, ein Swyddog Democrataidd at waith y Pwyllgor. Diolch yn fawr iawn i Emma am yr holl waith paratoi ymlaen llaw, am sicrhau bod ein cyfarfodydd rhithiol yn rhedeg yn hwylus ac am ei chefnogaeth proffesiynol pob amser.

Wrth orffen, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Swyddogion am eu cyfraniadau gwerthfawr i gyfarfodydd y Pwyllgor, am eu cyngor a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ac am eu gwaith diflino yn sicrhau bod trigolion Sir Gâr yn dal i dderbyn Gofal Cymdeithasol o'r safon uchaf posib.

Y Cynghorydd Gwyneth Thomas

Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner sy'n effeithio ar y Sir, a llywio'r penderfyniadau hynny.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol."*

Cadeirydd y Pwyllgor yw'r Cynghorydd Gwyneth Thomas ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig. Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2020/21. Mae'n caniatáu i

Aelodau ystyried llwyddiannau'r flwyddyn a nodi beth a weithiodd yn dda ac ymhle y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol i ddatblygu'r broses graffu.

2. Trosolwg o waith y Pwyllgor 2020/21

2.1 Nifer y Cyfarfodydd

Cynhaliodd y Pwyllgor Craffu bum cyfarfod ffurfiol ym mlwyddyn y Cyngor 2020/21.

Cafodd y cyfarfodydd a oedd i fod i'w cynnal rhwng mis Ebrill a mis Medi 2020 eu canslo oherwydd y pandemig Coronafeirws. Ailddechreuodd y cyfarfodydd ym mis Tachwedd ar ôl i Lywodraeth Cymru basio rheoliadau brys dros dro i lacio rhai o'r rheolau oedd yn ymwneud â chynnal busnes y cyngor. Cafodd y cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ei ganslo hefyd oherwydd cyfyngiadau adnoddau'r Bwrdd Iechyd yn ystod y pandemig.

2.2 Y Flaenraglen Waith

Mae'r Pwyllgor Craffu yn datblygu ei Flaenraglen Waith ei hun ar gyfer 2020/21 ond ni chadarnhaodd y Pwyllgor hyn tan ei gyfarfod ar 19 Tachwedd 2020 oherwydd y cyfarfodydd a ganslwyd.

Roedd y Pwyllgor wedi ymgynghori â swyddogion i nodi eitemau a fydd yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Roedd hyn yn golygu cynnwys eitemau safonol megis adroddiadau monitro perfformiad, cyllideb a chynlluniau gweithredu.

Gofynnwyd hefyd am adroddiadau ychwanegol a'r wybodaeth ddiweddaraf gan yr aelodau yn ystod y flwyddyn a newidiwyd y Flaenraglen Waith yn unol â hynny. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith.

Yn sgil ffurfio cysyniad y Flaenraglen Waith, ei datblygu a'r broses ar gyfer cytuno arni, mae modd i bob Pwyllgor Craffu benderfynu ar ei agendâu ei hun. Mae manteision y dull hwn o weithio wedi arwain at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd hirdymor o ran y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u cyflwyno ac mae'n rhoi pwyslais ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â phroblemau.

Dyma gyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd:

- Gofal Cymdeithasol - gwasanaethau gofal a chymorth i oedolion gan gynnwys Gwasanaethau Anabledd Dysgu a Diogelu
- Iechyd Meddwl;
- Gwasanaethau Integredig - Iechyd

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith ynghyd â sesiynau datblygu i aelodau.

Oherwydd y pandemig a'r adleoli staff a ddeilliodd o hynny, cafodd y prosiect Gorchwyl a Gorffen presennol ei ohirio. Mae'r Pwyllgor bellach wedi penderfynu adolygu cwmpas y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Yn ogystal, ni chynhaliwyd unrhyw ymweliadau safle.

2.3 Monitro Perfformiad/Materion Strategol

Adroddiadau Monitro Perfformiad - Un o rolau pennaf y Pwyllgorau Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau a ddaw o fewn eu cylch gwaith. Gwnânt y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad ac adroddiadau monitro cynlluniau gweithredu amrywiol. Mae'r adroddiadau monitro perfformiad yn rhoi darlun cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 1/30 (Hanner blwyddyn 1 Ebrill - 30 Medi) - Fel rhan o'i rôl o fonitro perfformiad, cafodd y Pwyllgor wybodaeth berthnasol am strategaethau a chynlluniau allweddol y Cyngor. Ym mis Ionawr 2020, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Perfformiad Hanner Blwyddyn 2020/21 y Cyngor (1 Ebrill i 30 Medi 2020) a oedd yn cynnwys trosolwg o berfformiad, adroddiadau cynnydd ar gyfer yr holl Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at Asesiad Effaith Gymunedol Covid-19 hanner blwyddyn a oedd wedi'i lunio i alluogi gwasanaethau i ganolbwyntio ar ddelio ag argyfyngau ar draul y camau a osodwyd yn flaenorol.

Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2021/22 - Ym mis Ebrill, 2021 rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Gynllun Busnes yr Adran Cymunedau a oedd yn amlinellu nodau, amcanion a blaenoriaethau'r adran ar gyfer 2021-22. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar y blaenoriaethau a amlinellwyd a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor - Comisiynu a Chymorth Busnes, Gwasanaethau Integredig, Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Chartrefi Gofal. Pwrpas y cynllun yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol.

Strategaeth Gorfforaethol 2018/23 - Diweddariad mis Ebrill 2021 - Ym mis Chwefror 2021, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Strategaeth Gorfforaethol ddrafft ddiweddaraf ar gyfer 2018-23, ynghyd â chynlluniau cyflawni Amcanion Llesiant perthnasol. Roedd y dogfennau wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r blaenoriaethau sy'n datblygu, effaith Covid-19, Brexit a newid yn yr hinsawdd.

2.4 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

Adroddiadau Monitro'r Gyllideb - Cafodd y Pwyllgor adroddiadau chwarterol ynghylch y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol yn y cyfarfodydd ym mis Tachwedd, Ionawr ac Ebrill. Galluogai'r adroddiadau hyn yr aelodau i fonitro'r gwariant ym mhob maes a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22-2023/24 - Yn ogystal â monitro'r gyllideb bresennol, ymgynghorwyd â'r Pwyllgor hefyd ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2021/22 i 23/24. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cynigion presennol i'r Pwyllgor ynghylch y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2021/22, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2023/2024.

2.5 Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill a oedd yn crynhoi nifer a math y cwynion a'r ganmoliaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (Chwarter 3).

2.6 Arolygiaeth Gofal Cymru Arolygu Gwasanaethau Integredig (Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd)

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr a oedd yn rhoi sylw i gynllun gweithredu'r Cyngor Sir mewn ymateb i arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru a'r cynnydd ar gamau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

2.7 Y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd – Adroddiad Blynyddol 2019/20

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd, a oedd, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf.

2.8 Y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19

Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020, y cyntaf ers i gyfyngiadau symud ddod i rym ym mis Mawrth 2020, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru. Roedd yr adroddiad yn rhoi datganiad safbwynt ynghylch sut yr oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion wedi ymdopi â thon gyntaf y pandemig ac yn tynnu sylw at flaenoriaethau'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Ym mis Mawrth 2021, cafwyd diweddariad arall yn disgrifio sut yr oedd yr Awdurdod wedi rheoli gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn ystod ail don y pandemig.

Canlyniadau

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ynghylch Profi COVID-19 a'r Rhaglen Frechu.

2.9 Gofalwyr Di-dâl yn Sir Gaerfyrddin - Datblygiadau Strategol, Lleol ac sy'n gysylltiedig â COVID-19

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed yn 2020/21 mewn perthynas â gofalwyr di-dâl gan Grŵp Datblygu Gofalwyr Rhanbarthol Gorllewin Cymru a Bwrdd Partneriaeth Strategol Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gofalwyr.

2.10 Strategaeth Anableddau Dysgu (2020-2025)

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad a nodwyd uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill, a oedd yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed ers i'r Pwyllgor dderbyn diweddariad ddiwethaf ym mis Ebrill 2018.

Canlyniadau

Pwyllgor i ymgysylltu â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ynghylch y gwasanaeth Ceir Cefn Gwlad.

3. Gweithgarwch Craffu Arall

3.1 Gorchwyl a Gorffen

Adolygiad o Effaith Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin”

Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad uchod yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2019. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (CMT) ym mis Gorffennaf ac fe'i gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol ym mis Medi.

Oherwydd ymadawiad y Pennaeth Gwasanaethau Integredig Dros Dro oedd â chyfrifoldeb am gyflawni'r argymhellion a'r pandemig COVID-19, ni nodwyd unrhyw gynnydd hyd yma. Y gobaith yw y bydd y pwyllgor yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd pan fydd y pwysau o ran adnoddau wedi lleddfu.

"Ymyrraeth Gynnar ac Atal Hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin"

Yn Rhag-Gyfarfod y Pwyllgor Craffu a gynhaliwyd ym mis Medi 2019, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i nifer o awgrymiadau posibl a chytunwyd i gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen ynghylch Ymyrraeth Gynnar ac Atal Hunanladdiad yn Sir Gaerfyrddin. Roedd aelodau’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd Gwyneth Thomas (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd Ieuan Davies (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorydd Emlyn Schiavone
- Y Cynghorydd Dorian Williams
- Y Cynghorydd Louvain Roberts
- Y Cynghorydd Ken Lloyd
- Y Cynghorydd Amanda Fox

Oherwydd y pandemig coronafeirws a'r effaith ar adnoddau, nid yw cyfarfodydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael eu hailymgynnull. Yn ogystal, penderfynodd y Pwyllgor y dylid adolygu cwmpas y Grŵp. Bydd gwaith y Grŵp yn cael ei ohirio hyd nes y cytunir yn ffurfiol ar y cwmpas diwygiedig.

3.2 Sesiynau Datblygu

Cynhaliwyd y sesiynau datblygu / seminarau canlynol i'r holl aelodau yn ystod 2020/21, a chafodd aelodau'r Pwyllgor eu gwahodd iddynt: -

- Hyfforddiant Microsoft Teams ar gyfer cyfarfodydd ar-lein - nifer o sesiynau ym mis Mehefin 2020
- Hyfforddiant Zoom ar gyfer cyfarfodydd ar-lein - Rhagfyr / Ionawr
- Hyfforddiant Ap Newydd Mod.gov (cynhelir gan Civica) - Hydref
- Hyfforddiant Craffu (Cyflwynir gan y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu) Hydref
- Craffu Ar-lein (Cyflwynir gan y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu) Tachwedd
- Cytundebau Adran 106 ac Ymgymeriadau Unochrog - Chwefror
- Briff ynghylch Brechu COVID-19 (Cynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) - Chwefror
- Cyflwyniad i Glefyd Coed Ynn a Rolau a Chyfrifoldebau'r Cyngor Sir - Mawrth
- Tyfu Sir Gaerfyrddin: Caffael Blaengar, cadwyni cyflenwi bwyd a Chyfleoedd yn y Dyfodol - Mawrth
- Anheddau Mentrau Gwledig - Mawrth
- Datblygiadau Un Blaned - Ebrill

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2021/22 a'r rhaglen gyfalaf 5 mlynedd.

Cafodd y Pwyllgor y diweddariadau / cyflwyniadau penodol canlynol gan y Pwyllgor Craffu mewn cyfarfodydd datblygu yn ystod y flwyddyn. Gofynnwyd am lawer o'r eitemau hyn ar ôl craffu ar adroddiadau: -

- Datblygu Blaenraglen Waith - Tachwedd
- Profion COVID (gan gynnwys profion mewn cartrefi gofal) - Rhagfyr
- Brechiadau COVID-19 - Rhagfyr
- Mynediad cymunedol i brydau twym - Ionawr
- Diweddariad am y Rhaglen Trawsnewid/y Gronfa Gofal Integredig - Ionawr
- Y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol - Ionawr
- Cynllun Adfer Gwasanaethau Dydd i Bobl Hŷn - Ionawr

- Tlodi Bwyd / Trechu Tlodi - Chwefror
- Gwasanaeth Cyfeillio – Mawrth
- Cysylltu â Charedigrwydd - Mawrth

4. Heriau

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod heriol i'r Awdurdod ac mae'r Pwyllgor wedi parhau i chwarae rôl adeiladol wrth graffu ar berfformiad a chyfrannu at bolisïau a phenderfyniadau allweddol. Rhoddwyd pwysau sylweddol ar faes Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod y pandemig Coronafeirws, ond perfformiodd pawb a gymerodd ran yn well na'r disgwyliadau i sicrhau bod y busnes yn mynd rhagddo yn ôl ei arfer.

Daeth yr ail don â chyfres wahanol o heriau yn enwedig mewn perthynas â'r sector cartrefi gofal. Fe ddarparodd yr Awdurdod gymorth i nifer o gartrefi gofal annibynnol a gafodd anawsterau staffio. Ail-ddefnyddiwyd adnoddau hefyd i gefnogi'r broses brofi a Phrofi Olrhain Diogelu.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi profi cynnydd o ran gweithgareddau diogelu a chytunwyd ar ddull rhanbarthol o reoli awdurdodiadau diogelu.

Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

5. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r Aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i gyflawni proses fwy syml o graffu, er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser y cyfarfodydd ynghyd â'r manteision o gynnal rhag-gyfarfodydd.

Bydd gwaith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol yn cael ei ystyried fel rhan o sesiwn cynllunio'r Flaenraglen Waith. Bydd y Flaenraglen Waith yn parhau i gael ei monitro yn ystod y flwyddyn, ynghyd â Blaenraglen Waith y Bwrdd Gweithredol.

6. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr.

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:

- Llunio agendâu yn unol â'r Flaenraglen Waith a'u dosbarthu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod;
- Darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;

- Rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion gyda'r Bwrdd Gweithredol;
- Rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlyniad a datblygiad blaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Cynorthwyo â rhaglen datblygu aelodau'r pwyllgorau craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys blaenraglenni gwaith, adroddiadau gorchwyl a gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost at craffu@sirgar.gov.uk

7. Presenoldeb

Mae presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod y flwyddyn 2020/21 yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o 5 cyfarfod rhwng 1 Mai 2020 a 30 Ebrill 2021. Yn ystod yr un cyfnod cynhaliwyd 5 cyfarfod datblygu.

Aelod y Pwyllgor Craffu	**Nifer y Cyfarfodydd Craffu a fynychwyd**	**%**	**Nifer y Sesiynau Datblygu a fynychwyd**	%
Y Cynghorydd Sue Allen	5	100%	5	100%
Y Cynghorydd Kim Broom	5	100%	4	80%
Y Cynghorydd Ieuan Wyn Davies	4	80%	3	60%
Y Cynghorydd Karen Davies	5	100%	3	60%
Y Cynghorydd Rob Evans	4	80%	1	20%
Y Cynghorydd Tyssul Evans	5	100%	4	80%
Y Cynghorydd Amanda Fox	1	20%	1	20%
Y Cynghorydd Jean Lewis	5	100%	5	100%
Y Cynghorydd Ken Lloyd	5	100%	5	100%
Y Cynghorydd Kevin Madge	2	40%	3	60%
Y Cynghorydd Louvain Roberts	3	60%	2	40%
Y Cynghorydd Emlyn Schiavone	5	100%	2	40%
Y Cynghorydd Gwyneth Thomas	5	100%	5	100%
Y Cynghorydd Dorian Williams	3	100%	5	100%
Dirprwyon	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**			
Y Cynghorydd Deryk Cundy	3			
Y Cynghorydd Rob James	2			
Y Cynghorydd Dot Jones	1			
Y Cynghorydd Daren Price	1			
Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol	**Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd**			
Y Cynghorydd Jane Tremlett	5			
Y Cynghorydd Linda D Evans	1			
Y Cynghorydd David Jenkins	3			
Y Cynghorydd Mair Stephens	1			